



Llywodraeth Cymru Dogfen Ymgynghori

Ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer is-ddeddfwriaeth
i ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)
2016 ac amrywiol ddogfennau canllaw arfer gorau

Dyddiad cyhoeddi: **11 Gorffennaf 2016**
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **3 Hydref 2016**

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn am gynigion ar gyfer pedwar darn o is-ddeddfwriaeth, am fersiwn drafft o un ddogfen ganllawiau atodol, ac am fersiynau drafft o bum ddogfen ganllawiau arferion gorau. Mae pob un yn rhan o raglen ehangach i wella'r modd y mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn cael ei warchod a'i reoli, sy'n gysylltiedig â'r broses o roi Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ar waith.

Mae'r dogfennau drafft a gyflwynir yma yn cyfeirio at *Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*, sydd hefyd wedi'i ddrafftio fel rhan o'r rhaglen ehangach honno i roi cyngor ar rôl y system gynllunio o ran rheoli'r amgylchedd hanesyddol yn gynaliadwy. Ar hyn o bryd mae *Nodyn Cyngor Technegol 24* yn destun ymgynghoriad sy'n cael ei gynnal gan Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn. Felly, efallai y byddai'n fuddiol ichi ystyried y ddau ymgynghoriad ar y cyd.

Sut i ymateb

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 3 Hydref 2016. Gallwch ymateb drwy'r e-bost neu'r post.

E-bost

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 7 a'i hanfon i:

historicensevironmentleg@cymru.gsi.gov.uk

Post

Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad 7 a'i hanfon i:

Rheoliadau a Chanllawiau – Ymgynghoriad 1
Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau o'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille ac ieithoedd eraill ar gais.

Ymgynghoriad ar bennod 6 o *Bolisi Cynllunio Cymru*, 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' (wedi dod i ben)
<http://gov.wales/consultations/planning/proposed-changes-to-planning-policy-wales-chapter-6-the-historic-environment/?lang=cy>

Ymgynghoriad ar Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol

<http://gov.wales/consultations/planning?lang=cy>

Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy

http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation_Principles_CY.pdf

Manylion Cysylltu

Am ragor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:

historicenvironmentleg@cymru.gsi.gov.uk

Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi
Y Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol (Cadw)
Llywodraeth Cymru
Plas Caeriw
Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

01443 336091 / 01443 336090

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r

cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cyflwyniad

1. Mae'r amgylchedd hanesyddol yn rhan annatod o diwylliant a chymeriad Cymru ac yn cyfrannu at ein hymdeimlad o le ac at natur unigryw ardaloedd lleol. Mae'n sbardun pwerus ar gyfer adfywio cymunedol ac yn gwneud cyfraniad sylweddol at ffyniant ein gwlad. Felly, mae'n hanfodol bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei werthfawrogi, ei warchod a'i reoli a'i fod ar gael i'w fwynhau, er lles cyffredinol y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.
2. Diben Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016, a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016, yw gwneud gwelliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod amgylchedd hanesyddol Cymru a'i reoli mewn ffordd gynaliadwy.¹ Bydd hefyd wrth wraidd pecyn integredig o is-ddeddfwriaeth, polisïau a chyngor cynllunio newydd a diwygiedig a chanllawiau arferion gorau ar amrywiaeth eang o bynciau. Byddant, gyda'i gilydd, yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r gwaith o reoli newid yn yr amgylchedd hanesyddol yn ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arfer cyfredol ym maes cadwraeth presennol.
3. Cynlluniwyd y gyfres gyfan hon o ddeddfwriaeth, polisïau, cyngor a chanllawiau gan ystyried y saith nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.² Mae'r nodau llesiant hynny'n rhoi gweledigaeth a rennir o'r 'Gymru a garem' i gyrrff cyhoeddus weithio tuag ati. Mae'r rheoliadau a'r dogfennau canllawiau a gyflwynir yma at ddibenion ymgynghori yn seiliedig ar y weledigaeth honno a byddant yn cyfrannu at y broses o'i gwireddu.

Rhaglen o ymgynghoriadau

4. Gan y bydd yr is-ddeddfwriaeth, y polisïau, y cyngor a'r canllawiau a fydd yn ategu Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn cael effeithiau eang ar yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, mae'n bwysig cael barn rhanddeiliaid a'r cyhoedd wrth iddynt gael eu datblygu. Felly, cynhelir sawl ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod 2016.
5. Mae'r un cyntaf, sef yr ymgynghoriad ar y fersiwn ddiwygiedig o'r bennod ar yr amgylchedd hanesyddol (pennod 6) ym *Mholisi Cynllunio Cymru*, eisoes wedi'i gynnal.³ Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 13 Mehefin a bydd ei ganlyniad a'r fersiwn derfynol o'r bennod ar gael yn y hydref.
6. Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad presennol, mae Is-adran Gynllunio Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar Nodyn Cyngor Technegol newydd, sef *TAN 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*. Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar <http://gov.wales/consultations/planning/?lang=cy>.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2016/4/contents/enacted/welsh>

² <http://www.legislation.gov.uk/anaw/2015/2/contents/enacted/welsh>

³ <http://gov.wales/consultations/planning/proposed-changes-to-planning-policy-wales-chapter-6-the-historic-environment/?lang=cy>

7. Cynhelir ymgynghoriadau pellach yn ddiweddarach yn 2016 ac yn gynnar yn 2017 er mwyn cael ymatebion i gynigion i weithredu agweddau eraill ar Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 a dogfennau canllawiau eraill.

Yr ymgynghoriad presennol

8. Mae'r ymgynghoriad hwn yn cwmpasu nifer o gynigion a dogfennau canllawiau gwahanol. Gan ei fod yn ymdrin ag amrywiaeth eang o bynciau sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol, efallai na fydd rhai o'r cwestiynau o ddiddordeb ichi neu efallai na fyddant yn rhan o'ch profiad. Felly, mae croeso ichi ateb cynifer neu gyn lleied o'r cwestiynau ag y dymunwch.
9. Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin â chynigion ar y canlynol:
 - A. Rheoliadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 i bennu'r gyfradd llog ar gyfer costau yr eir iddynt wrth wneud gwaith brys (paragraffau 12-14)
 - B. Gweithdrefnau i hawlio digollediad sy'n gysylltiedig â hysbysiadau stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig (paragraffau 15-21)
 - C. Symleiddio'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydsyniad heneb gofrestredig (paragraffau 22-26)
 - D. Gofyniad i gynnwys datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth fel rhan o broses gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig, cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth, ynghyd â chanllawiau cysylltiedig (paragraffau 27-38).
10. Mae hefyd yn cynnwys y dogfennau canllawiau arferion gorau isod:
 - E. *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* (paragraffau 39-41)
 - F. *Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* (paragraffau 42-43)
 - G. *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (paragraffau 44-45)
 - H. *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru* (paragraffau 46-48)
 - I. *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* (paragraffau 49-50).
11. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys trafodaeth fer am bob cynnig neu ddogfen ganllawiau, mae'n gofyn cwestiynau perthnasol a, lle y bo'n briodol, yn cyfeirio'r darlennydd at yr atodiad sy'n cynnwys y canllawiau drafft.

Cynigion ar gyfer rheoliadau a newidiadau gweithdrefnol

A. Rheoliadau i bennu'r gyfradd llog ar gyfer costau yr eir iddynt wrth wneud gwaith brys

12. Mae Adran 30 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn diwygio adrannau 54 a 55 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, sy'n rheoleiddio'r defnydd a wneir o waith brys i ddiogelu adeilad rhestredig.
13. Mae'r Ddeddf newydd yn darparu i'r costau yr eir iddynt gan awdurdod lleol wrth wneud gwaith brys fod yn bridiant ar y tir y saif yr adeilad rhestredig arno. Mae hefyd yn darparu ar gyfer codi llog ar y swm sy'n ddyledus ar gyfradd a ragnodir drwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.
14. Cynigir y bydd y rheoliadau yn nodi na chaiff awdurdodau lleol godi llog sy'n uwch na Chyfradd Sylfaenol Banc Lloegr plws 2%. Y nod yw pennu cyfradd a fydd yn deg i berchennog yr adeilad ac i'r awdurdod lleol.

C1.	A ydych yn cytuno mai'r gyfradd llog y dylid ei chynnwys mewn rheoliadau yw Cyfradd Sylfaenol Banc Lloegr plws 2%?
------------	---

B. Gweithdrefn i hawlio digollediad sy'n gysylltiedig â hysbysiadau stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig

15. Mae Adran 13 a 29 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn cyflwyno hysbysiadau stop dros dro i'w defnyddio i atal ar unwaith unrhyw waith nas awdurdodwyd ar henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig.
16. Mae'r Ddeddf yn nodi'r hawl i ddigollediad mewn perthynas ag unrhyw golled neu ddifrod y gellir ei phriodoli neu ei briodoli'n uniongyrchol i effaith hysbysiad stop dros dro. Dim ond o dan amgylchiadau penodol y mae digollediad ar gael. Er enghraifft, gellir ei hawlio os nad yw'r gwaith a nodir mewn hysbysiad stop dros dro yn waith sydd heb ei awdurdodi oherwydd nad oes angen cydsyniad neu am fod cydsyniad wedi'i roi ar neu cyn y dyddiad yr arddangosir yr hysbysiad gyntaf.
17. Mae'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyhoeddi rheoliadau sy'n rhagnodi erbyn pryd y mae'n rhaid hawlio digollediad a sut y dylid ei hawlio.
18. Mae Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 eisoes yn rhagnodi erbyn pryd y mae'n rhaid hawlio digollediad a sut y dylid ei hawlio o dan amgylchiadau penodol, megis pan gaiff cydsyniad adeilad rhestredig ei wrthod, ei ddirymu neu ei addasu.

19. Yn yr un modd, mae rheoliadau ar waith eisoes ar gyfer hawlio digollediad o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, a hynny ar ffurf *The Ancient Monuments (Claims for Compensation) (Wales) Regulations 1991*.
20. Mae'r ddwy gyfres o reoliadau, ar y cyfan, yn nodi bod gofyn hawlio digollediad yn ysgrifenedig o fewn chwe mis i'r dyddiad y caiff camau eu cymryd (ac eithrio hawliadau am ddigollediad drwy hysbysiad prynu neu pan wrthodir rhoi cydsyniad adeilad rhestredig neu pan fo amodau'n gysylltiedig â chydsyniad adeilad rhestredig).
21. Cynigir y dylai'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â hawliadau am ddigollediad sy'n deillio o gyflwyno hysbysiadau stop dros dro ar gyfer henebion cofrestredig neu adeiladau rhestredig fod yn debyg i'r rheini sydd eisoes ar waith. Felly, bydd angen cyflwyno hawliadau o fewn chwe mis i'r dyddiad yr arddangoswyd yr hysbysiad gyntaf, oni chaiff yr hysbysiad ei dynnu'n ôl gan Weinidogion Cymru neu gan awdurdod cynllunio lleol, ac eithrio ar ôl i gydsyniad sy'n awdurdodi'r gwaith gael ei roi. Yn yr achos hwnnw, bydd angen hawlio digollediad o fewn chwe mis i'r dyddiad y tynnwyd yr hysbysiad stop dros dro yn ôl.

C2.	A ydych yn cytuno â'r cyfnod amser a bennir ar gyfer hawlio digollediad sy'n gysylltiedig â hysbysiad stop dros dro?
------------	---

C. Symleiddio proses cydsyniad heneb gofrestredig

22. O dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979, mae'n drosedd gwneud gwaith penodedig i heneb gofrestredig oni bai ei fod wedi'i awdurdodi gan gydsyniad heneb gofrestredig a roddwyd gan Weinidogion Cymru, neu oni bai ei fod yn waith a ganiateir o dan gydsyniadau dosbarth penodol. Ar hyn o bryd, cyflwynir pob cais am gydsyniad heneb gofrestredig i Weinidogion Cymru ar ffurflen a ragnodir mewn rheoliadau.
23. Ar ôl i Weinidogion Cymru ystyried cais, maent yn anfon llythyr penderfyniad interim at yr ymgeisydd, sy'n cynnwys unrhyw amodau y maent yn bwriadu eu gosod ar y cydsyniad. Gall yr ymgeisydd dderbyn y penderfyniad arfaethedig neu gyflwyno sylwadau pellach cyn y penderfynir ar y cais a chyn i'r llythyr penderfyniad terfynol yn rhoi cydsyniad ysgrifenedig gael ei anfon.
24. Mae angen cael cydsyniad ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o waith ar heneb gofrestredig, ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddewis amgen heblaw'r broses lawn ar gyfer gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig. Mae hyd yn oed angen cais llawn a phenderfyniad interim ar fân waith cynnal a chadw neu atgyweirio a fyddai o fudd i heneb, a gallai hynny fod yn ddatgymhelliad sylweddol i berchenogion.
25. Mae Adran 5 o Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 yn cyflwyno'r pŵer i wneud rheoliadau a fydd yn sefydlu gweithdrefn symlach ar gyfer gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestredig. Bydd

hyn yn caniatáu i Weinidogion Cymru, gyda chytundeb y perchennog, awdurdodi set benodol o fân waith heb fod angen ffurflen gais na llythyr penderfyniad interim.

26. Y bwriad yw y bydd Gweinidogion Cymru yn gallu anfon llythyr neu neges e-bost yn awdurdodi gwaith penodedig o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Dim ond mân waith y bydd modd ei awdurdodi fel hyn. Bydd yn rhaid i'r gwaith fodloni'r meini prawf canlynol: ni ddylai fod yn ddadleuol, dim ond amodau safonol a ddylai fod ynghlwm wrtho, a dylai fod modd pennu'n llawn yn yn y llythyr/neges e-bost y math o waith sydd i'w wneud, yn ogystal â'i leoliad .

C3.	A ydych yn cytuno â'r cynnig i gyflwyno proses symlach er mwyn gwneud cais am gydsyniad heneb gofrestrdig ar gyfer gwaith annadleuol?
------------	--

D. Datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth a chanllawiau cysylltiedig

27. Wrth i Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 gael ei datblygu, cafodd y cynnig i gyflwyno asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth fel rhan annatod o geisiadau am gydsyniad i newid asedau hanesyddol, ei gefnogi gan randdeiliaid a hefyd gan waith ymchwil am y broses cydsyniad adeilad rhestredig, a gomisiynwyd oddi wrth Hyder Consulting⁴.
28. Yn 2015, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar welliannau arfaethedig i is-ddeddfwriaeth ar gyfer rheoli datblygu.⁵ Esboniodd y ddogfen y bwriad i gyflwyno gofyniad i gynnal asesiadau o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer ceisiadau am gydsyniad heneb gofrestrdig, cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth. Ymdrinnid â materion yn ymwneud â dylunio a mynediad fel rhan o'r ystyriaeth ehangach a roddir i effaith cynnig ar arwyddocâd treftadaeth. Roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad yn gefnogol iawn i'r dull hwn o weithredu.
29. O ganlyniad, rydym bellach yn ymgynghori ar y newidiadau y bydd angen eu gwneud i is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflwyno'r gofyniad hwnnw a hefyd ar ddogfen ganllawiau am broses asesu'r effaith ar dreftadaeth.
30. Mae proses asesu'r effaith ar dreftadaeth yn un strwythuredig er mwyn sicrhau bod arwyddocâd ased hanesyddol yn cael ei ystyried wrth ddatblygu a llunio cynigion ar gyfer newid. Mae'n rhan graidd o'r broses ddylunio, sy'n profi a yw cynigion i newid ased hanesyddol yn briodol drwy asesu eu heffaith ar ei arwyddocâd.
31. Dylai asesiad fod yn gymesur ag arwyddocâd yr ased hanesyddol ac â graddau'r newid a gynigir.

⁴ http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Refining_the_Listed_Building_Consent_Process_EN.pdf

⁵ <http://gov.wales/consultations/planning/further-secondary-legislation-for-development-management/?lang=cy>

32. Bydd canlyniadau asesiad o'r effaith ar dreftadaeth yn cael eu crynhoi mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth a gaiff ei ystyried ochr yn ochr â chais am gydsyniad. Y datganiad o'r effaith ar dreftadaeth fydd y gofyniad statudol a nodir mewn rheoliadau.
33. Bydd y datganiad o'r effaith ar dreftadaeth yn cynnwys y canlynol:
- a. **Crynodeb o'r gwaith arfaethedig** — y cynigion dylunio, gan gynnwys rhestr waith gryno sy'n rhoi digon o wybodaeth i ganiatáu i benderfyniad deallus gael ei wneud.
 - b. **Cyfiawnhad** — yr hyn y bwriedir i'r gwaith arfaethedig ei gyflawni, pam mae angen ei wneud a'r rheswm dros ddewis yr opsiwn a ffefrir.
 - c. **Datganiad o arwyddocâd** — disgrifiad byr o'r ased a'i werth o ran treftadaeth. Dylai gyfeirio'n benodol at yr agweddau hynny ar ei werth y bydd y cais am gydsyniad yn effeithio'n fwyaf uniongyrchol arnynt ac esbonio eu cyfraniad at arwyddocâd cyffredinol yr ased.
 - d. **Asesiad o effaith y cynnig** — gan gynnwys y manteision posibl a'r niwed y gallai ei wneud.
 - e. **Crynodeb o unrhyw fesurau lliniaru** — gan gynnwys y dull gweithredu a ddewiswyd gennych, agweddau perthnasol ar ei ddyluniad a'r broses o'i roi ar waith, ac unrhyw gynigion ar gyfer gwrthbwysio difrod.
 - f. **Datganiad mynediad** — os oes angen un.
34. Dylai pob cynnig dylunio feithrin diwylliant o gynhwysiant lle mae atebion dylunio yn darparu mynediad i'r amrywiaeth ehangaf posibl o bobl. Mae'n arfer dda ystyried materion mynediad yn gynnar yn yr asesiad o'r effaith ar dreftadaeth.
35. Cynigir mai dim ond pan fydd y gwaith y ceisir cydsyniad ar ei gyfer yn effeithio ar y trefniadau mynediad i ased hanesyddol (adeilad fel arfer) neu fynedfa y tu mewn iddo y bydd angen datganiad ffurfiol ar fynediad.
36. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu mewn nifer o feysydd gan gynnwys mynediad at wasanaethau, addysg a chyflogaeth. Bydd angen i'r datganiad mynediad ddangos bod pob cam rhesymol wedi'i gymryd i ddarparu mynediad llawn, gan gydnabod ar yr un pryd y gall arwyddocâd yr ased gyfyngu ar yr opsiynau ar gyfer gwneud hynny weithiau. Bydd y datganiad mynediad yn esbonio sut mae'r gwaith arfaethedig wedi cydbwysu unrhyw ddyletswyddau a osodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb ag arwyddocâd hanesyddol a phensaernïol yr adeilad.
37. Lluniwyd y ddogfen ganllawiau, *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru* (Atodiad 1), er mwyn helpu perchenogion, meddianwyr ac asiantau i ddeall pryd, pam a sut y dylent gynnal asesiad o'r effaith ar

dreftadaeth. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar sut i gyflwyno datganiad o'r effaith ar dreftadaeth.

38. Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ddefnyddio *Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru* ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* i lywio eu polisiau eu hunain ac wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestrredig a chydsyniad ardal gadwraeth, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

C4.	A ydych yn cytuno y dylai fod angen datganiad o'r effaith ar dreftadaeth ar gyfer pob cais am gydsyniad heneb gofrestrredig (oni chytunir fel arall gyda Gweinidogion Cymru), cydsyniad adeilad rhestredig a chydsyniad ardal gadwraeth?
------------	---

C5.	A ydych yn cytuno y dylai datganiadau o'r effaith ar dreftadaeth ddisodli datganiadau dylunio a mynediad ar gyfer ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig?
------------	---

C6.	A ydych yn cytuno y dylai fod angen datganiad mynediad mewn unrhyw ddatganiad o'r effaith ar dreftadaeth pan fyddai'r gwaith arfaethedig yn newid y fynedfa i adeilad rhestredig neu fynedfa y tu mewn iddo?
------------	---

C7.	A ydych yn cytuno â'r cynigion am yr hyn y dylid ei gynnwys mewn datganiad o'r effaith ar dreftadaeth?
------------	---

C8.	A yw'r canllawiau, <i>Asesiadau o'r Effaith ar Dreftadaeth yng Nghymru</i>, yn cyfleu'n glir pryd, pam a sut y dylid defnyddio proses asesu'r effaith ar dreftadaeth ac a yw'n rhoi cyngor defnyddiol ar sut i gyflwyno'r datganiad o'r effaith ar dreftadaeth?
------------	--

Dogfennau canllawiau ar arferion gorau

E. *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru*

39. Mae Pennod 6 o *Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd) yn nodi'r polisi a'r cyngor lefel uchel ar reoli'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru.
40. Mae *Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru* (Atodiad 2) yn ategu'r dogfennau hyn ac yn nodi egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth wneud newidiadau i adeiladau rhestredig. Mae'n esbonio sut i wneud cais am gydsyniad adeilad rhestredig ac yn darparu gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau perchenogion, awdurdodau cynllunio lleol a Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw).

41. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu'n bennaf at berchenogion adeiladau rhestredig ac at asiantau sy'n gweithredu ar eu rhan, er mwyn eu helpu i ddeall goblygiadau bod yn berchen ar adeilad rhestredig a gwneud newidiadau iddo. Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau hefyd ddefnyddio'r canllawiau ochr yn ochr â *Pholisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24* wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a chydsyniad adeilad rhestredig, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

C9.	A fydd Rheoli Newidiadau i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru yn rhoi arweiniad defnyddiol i berchenogion adeiladau rhestredig a'u hasiantau? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r ddogfen?
------------	---

F. *Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru*

42. Mae *Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru* (Atodiad 3) yn nodi egwyddorion cyffredinol ar gyfer rheoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru. Mae'n ategu'r adrannau perthnasol o *Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd).
43. Mae'r ddogfen wedi'i hanelu at awdurdodau cynllunio cenedlaethol a lleol, ymgymeryr statudol a darpar ddatblygwyr. Mae'n ceisio codi proffil a phwysleisio arwyddocâd Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru a bydd yn helpu'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau i reoli newid heb amharu ar Werth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd.

C10.	A fydd Rheoli Newidiadau i Safleoedd Treftadaeth y Byd yn effeithiol o ran helpu'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau i warchod Gwerth Cyffredinol Eithriadol Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru?
-------------	--

C11.	A fydd y canllawiau yn helpu i sicrhau cysondeb wrth reoli Safleoedd Treftadaeth y Byd yng Nghymru, yn enwedig y rheini a leolir mewn mwy nag un ardal awdurdod lleol?
-------------	---

G. *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru*

44. Mae *Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru* (Atodiad 4) wedi'i hanelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol a'i nod yw hyrwyddo dull cyson o ddynodi, arfarnu a rheoli ardaloedd cadwraeth ledled Cymru.
45. Mae'r canllawiau yn nodi'r cyd-destun polisi ar gyfer dynodi a rheoli ardaloedd cadwraeth ac yn esbonio'r dyletswyddau y mae'n ofynnol i awdurdodau cynlluniau lleol eu cyflawni. Mae hefyd yn nodi agweddau allweddol ar arferion da ar gyfer: dynodi ac arfarnu ardaloedd cadwraeth,

cyfranogiad rhanddeiliaid a datblygu polisïau lleol ar gyfer gwaith rheoli a gwella cadarnhaol.

C12.	A fydd Rheoli Ardaloedd Cadwraeth yng Nghymru yn annog awdurdodau cynllunio lleol i fabwysiadu dull cyson o weithredu ledled Cymru mewn perthynas ag ardaloedd cadwraeth ? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r ddogfen?
-------------	--

H. *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru*

46. Mae *Rheoli Rhestrau o Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru* (Atodiad 5) wedi'i hanelu'n bennaf at awdurdodau cynllunio lleol a sefydliadau yn y trydydd sector. Bydd yn annog y ddau sector i gydweithio er mwyn gwarchod a gwella asedau hanesyddol o ddiddordeb lleol arbennig ac yn ysbrydoli pobl i ofalu am eu treftadaeth leol.
47. Mae'r ddogfen yn nodi egwyddorion cyffredinol ac arferion da ar gyfer llunio a rheoli rhestrau o asedau hanesyddol lleol — gan gynnwys meini prawf, enwebu, ymgynghori, dilysu, apelau a monitro — ac yn rhoi canllawiau ar sut i'w defnyddio yn y system gynllunio.
48. Mae'r canllawiau yn ategu'r adrannau perthnasol o *Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd).

C13.	A yw'r egwyddorion cyffredinol a'r cyngor ar arferion da yn Rheoli Rhestrau o Asedau o Ddiddordeb Lleol Arbennig yng Nghymru yn rhoi digon o arweiniad i awdurdodau cynllunio lleol ar sefydlu a defnyddio rhestrau lleol? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir gwella'r canllawiau?
-------------	---

I. *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru*

49. Mae *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* (Atodiad 6) yn esbonio beth yw lleoliad, sut mae'n cyfrannu ar arwyddocâd ased hanesyddol a pham mae'n bwysig. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi'r egwyddorion a ddefnyddir i asesu effaith bosibl cynigion datblygu neu gynigion ar gyfer rheoli tir ar leoliad Safleoedd Treftadaeth y Byd, henebion (cofrestredig ac anghofrestredig), adeiladau rhestredig, parciau a gerddi hanesyddol cofrestredig ac ardaloedd cadwraeth.
50. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at ddatblygwyr, perchenogion, meddianwyr ac asiantau. Gall awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau eu defnyddio hefyd ochr yn ochr ag adrannau perthnasol o *Bolisi Cynllunio Cymru a Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol* (sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd) er mwyn llywio polisïau lleol ac wrth ystyried ceisiadau unigol am ganiatâd cynllunio a

chydysyniad adeilad rhestredig, cydsyniad heneb gofrestredig a chydysyniad ardal gadwraeth, gan gynnwys trafodaethau cyn ymgeisio.

C14. A yw *Lleoliad Asedau Hanesyddol yng Nghymru* yn esbonio'n ddigon da pam mae lleoliad yn bwysig a sut y dylid ei asesu?

C15. A yw'r canllawiau'n esbonio'n ddigon da elfennau gweledol ac, yn arbennig, elfennau anweledol lleoliad?

C16. A yw'r canllawiau yn esbonio sut i ystyried elfennau gweledol ac anweledol lleoliad yn ystod y broses asesu? A oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglŷn â sut y gellir eu gwella?